

## Trosolwg

Mae'r safon hon a wnelo â chreu effeithiau ffurfiau bychain.

Bydd angen dealltwriaeth o offer camera, gan gynnwys lensys, fformatau a mowntiau, a chysylltu'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Ffotograffiaeth i ddeall sut caiff ffurfiau bychain eu ffilmio.

Bydd hefyd yn gofyn ichi ddeall gwaith adeiladu, technegau trin digidol ac effeithiau gweledol.

Mae'n tybio fod gennych ddealltwriaeth o byrotechneg ac yn gallu gweithio'n agos gydag aelodau'r tîm pyrotechneg i gyflawni'r effaith yn ddiogel ac effeithlon.

Bydd yn gofyn ichi gysylltu gyda'r gwneuthurwyr priodol ac mewn rhai achosion defnyddio Dylunio â Chymorth Cyfrifiadur (CAD), Gweithgynhyrchu â Chymorth Cyfrifiadur (CAM) neu argraffwyr 3D i gynhyrchu modelau gofynnol.

Mae'r safon hon ar gyfer y rhai sy'n cynhyrchu effeithiau arbennig ffurfiau bychain.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. creu effeithiau ffurfiau bychain sy'n cwrdd â gofynion y brîff, cyllideb a'r cynhyrchiad
2. ymgynghori gyda phenaethiaid adrannau perthnasol i gadarnhau bod effeithiau ffurfiau bychain sydd wedi'u cwblhau yn cwrdd â'r gofynion
3. cysylltu gyda staff cynhyrchu perthnasol ac awdurdodau gorfodi i sicrhau bod effeithiau yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r gyfraith
4. darparu dogfennaeth sy'n manylu sut caiff effeithiau ffurfiau bychain eu dylunio a'u cyflawni
5. cadarnhau bod ffurfiau bychain wedi'u gwneud a'u graddio i gwrdd â gofynion y cynhyrchiad
6. sicrhau bod unrhyw ddogfennaeth angenrheidiol wedi'u creu a'u cadw yn unol â rheoliadau
7. canfod deunyddiau sydd eu hangen ar gyfer y ffurfiau bychain gaiff eu cynhyrchu
8. cynnal iechyd a diogelwch y cast a'r criw
9. cydweithio gyda thechnegwyr pyrotechnig i greu effeithiau pyrotechnig sy'n cwrdd â gofynion diogelwch a gofynion y cynhyrchiad
10. cysylltu gyda thechnegwyr CAD, CAM neu argraffu 3D i gynhyrchu unrhyw fodelau sydd eu hangen yn unol â gofynion y cynhyrchiad
11. cofnodi pob agwedd o asesu risg a rheoli risg
12. darparu dewisiadau eraill o fewn cyllideb ac amserlen y cynhyrchiad os nad oes modd cynhyrchu'r effeithiau i'r dyluniad neu gyllideb gwreiddiol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y dadansoddiad sgrïpt, gofynion cyllideb a'r cynhyrchiad ar gyfer effeithiau ffurfiau bychain
2. deddfwriaeth iechyd a diogelwch a safonau'r diwydiant ar gyfer creu effeithiau ffurfiau bychain
3. cyflymder ffilm, fformatau fframiau a chymarebau
4. gwahanol fathau o gamerâu a'u manteision ac anfanteision
5. sut i ddefnyddio camerâu a'u hoffer ategol
6. onglau lens a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r rhain
7. mowntiau camerâu a sut maent yn wahanol i'w gilydd
8. pwysigrwydd graddfa a phersbectif a sut caiff y rhain eu defnyddio i gyflawni effeithiau gwahanol
9. sut i ddarllen lluniau sydd wedi'u cynhyrchu gan gyfrifiaduron, technegau trin digidol a lluniadau technegol
10. deunyddiau addas a sut i'w cael, i'w defnyddio ar effeithiau ffurfiau bychain
11. sut mae modd creu modelau celfi digidol a'u hallbynnu i'r broses gwneud, boed yn fewnol neu yn allanol
12. pyrotechneg, dŵr a thân a sut maent yn cael eu graddio i'w defnyddio ar ffurfiau bychain
13. beth mae modd ei gyflawni drwy ôl-gynhyrchu ac effeithiau gweledol ar gyfer yr effaith sy'n ofynnol

<b>Datblygwyd gan</b>	ScreenSkills
<b>Fersiwn rhif</b>	3
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	31 Maw 2024
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	31 Maw 2027
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynol</b>	ScreenSkills
<b>RCU gwreiddiol</b>	SKSPSFX6
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Uwch Dechnegydd Effeithiau Arbennig, Technegydd Effeithiau Arbennig, Swyddog Effeithiau Arbennig dan Hyfforddiant, Arolygydd Effeithiau Arbennig
<b>Cyfes/Set</b>	Effeithiau Arbennig Ffisegol
<b>Geiriau Allweddol</b>	effeithiau arbennig ffisegol; dylunio; cynllunio; CAM; CAD; ymarfer gweithdy; effaith atmosfferig; effaith tân ymarferol; effaith ffurfiau bychain; effaith ffrwydrol; dadansoddiad sgrïpt; cyllideb; cynhyrchiad;